



Astudiaeth Achos Cynllunio
Safle Gradd Bwyd: Charcutier Ltd



Trosolwg

Cwmni charcuterie crefft yw *Charcutier Ltd*, sy'n dod â dulliau cadw cig o Brydain, De Ewrop a Gogledd America ynghyd. Ar hyn o bryd, mae'r cwmni'n gwerthu amrywiaeth o gig moch wedi'i halltu a selsig di-glwten a di-gadwolion ledled de Cymru drwy gyflenwadau uniongyrchol a marchnadoedd cynnyrch/ffermwyr. Bu'r cwmni yn datblygu amrywiaeth o gynnyrch sychu ag aer ers 2014 ac agorwyd cyfleuster cynhyrchu mawr ar y fferm yn 2015.



Sut y Tyfodd y Cwmni?



Sefydlwyd y cwmni ar y cyd rhwng Illtud Llyr Dunsford a Liesel Taylor yn 2010 pan gafodd y llwyth cyntaf o gig moch a selsig i'w manwerthu eu gwneud yng nghegin y ffermdy. Yn gynnar yn 2011, defnyddiwyd y cyfleusterau yng Nghanolfan Fwyd Horeb i ddatblygu ystod o gynnyrch ac yn 2012 cymerodd Charcutier les ar un o'r unedau hybu yn y Ganolfan Fwyd i ddechrau cynhyrchu.

Mae'r Ganolfan Fwyd yn Horeb wedi'i lleoli yng Ngheredigion, a chwmni sy'n seiliedig yn Sir Gaerfyrddin yw Charcutier. Ni lwyddodd y cwmni i ddod o hyd i unrhyw safle gradd bwyd yn Sir Gaerfyrddin a oedd yn addas i fusnes bwyd newydd. Nid oedd unedau addas ar gael ym Mharc Bwyd Cross Hands, ac roedd unrhyw unedau a oedd ar gael yn llawer rhy fawr. Yr argraff a gafwyd oedd bod safleoedd gradd bwyd ar gael i fusnesau mwy a ddymunai ehangu ond nid i fusnesau bwyd newydd. Golygai'r lleoliad yn Horeb fod yn rhaid i'r staff a sefydlodd y cwmni deithio cyfanswm o fwy na 50 milltir i gynhyrchu eu cynnyrch, oherwydd diffyg cyfleusterau yn lleol. Roedd y cyfleusterau yn Horeb yn ddigonol i fusnes sy'n dechrau tyfu ac roedd yr amser aros i gymryd les ar uned yn llai na blwyddyn. Ond yn Horeb, roedd y cwmni yn gosod eu gwaith cynhyrchu i mewn i uned bresennol yn hytrach na chyfleusterau pwrpasol.

Felly, wrth i'r busnes ehangu, edrychwyd ar ddatblygu eu safle eu hunain yn Llanelli, yn Sir Gaerfyrddin, mewn cyn-barlwr godro. Cyflwynodd Charcutier eu cais cynllunio cyntaf ym mis Awst 2011 ac er y bu'n rhaid tynnu'r cais cychwynol yn ôl a'i ail-gyflwyno, cawsant ganiatâd cynllunio ym mis Rhagfyr 2011. Adeiladwyd y cyfleusterau prosesu bwyd pwrpasol yn 2014, gan agor yn 2015.

Mae'r cyn-barlwr godro bellach yn ffatri o'r radd flaenaf wedi'i hadeiladu'n bwrpasol, sy'n cynnwys cyfleusterau labordy cig, safle cigyddiaeth gyda'r offer gorau, ystafell sychu Eidalaidd, tŷ mwg Almaenaidd a chanolfan datblygu ryseitiau gynhwysfawr.

Rhagwelir y gallai fod angen ehangu ymhellach ar ryw adeg yn y dyfodol, nid o anghenraid yn sgil twf yn y farchnad ond er mwyn darparu cyfleusterau ar gyfer gwahanol fathau o gynhyrchu, felly dyma gwmni sy'n ystyried parhau i esblygu a datblygu.

Gwersi a Ddysgwyd

Mae tair prif wers yn codi o'r astudiaeth hon i fusnesau neu gyrff cynorthwyo sy'n ystyried cael caniatâd cynllunio ar gyfer safle gradd bwyd newydd.

Cyngor: Ymgynghorwch â rhanddeiliaid allweddol a'r Awdurdod Cynllunio Lleol fel y gallwch gynnwys eu sylwadau yn eich cais cynllunio.

Ym mis Awst 2011 gwnaeth y cwmni gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer cyfleusterau pwrpasol ar y fferm drwy addasu hen barlwr godro di-angen. Bu'r cwmni yn drwyadl iawn wrth ymgynghori ac ymgysylltu â phob parti cyn y broses gynllunio ac yn ystod y broses. Golygai hyn fod y broses yn gymharol llyfn. Bu Canolfan Bwyd Cymru ac lechyd yr Amgylchedd yn eithriadol o gynorthwyol gan ddarparu cyngor ar ddyluniad yr adeilad.

Cafodd Charcutier gyngor hefyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach) ar ddraenio a ymgorfforwyd yn eu cais cynllunio a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2011. Yn anffodus, derbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar sail draenio ac felly tynnwyd y cais yn ôl ym mis Awst 2011. Roedd Charcutier yn synnu at hyn o ystyried y cyngor a gafwyd yn flaenrol ac felly byddent yn cynghori busnesau eraill i sicrhau eu bod yn cadw cofnodion o waith ymgynghori yn ysgrifenedig er mwyn osgoi sefyllfaoedd tebyg.

Cyngor: Mynnwch gyngor gan ymgynghoreion yn ysgrifenedig lle bynnag y bo modd a chadwch gofnodion.

Gweithiodd Charcutier gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i ddatblygu cynllun draenio a chyflwynwyd cais diwygiedig ym mis Tachwedd 2011. Cymeradwywyd y cais o dan bwerau dirprwyedig¹ ym mis Rhagfyr 2011. O ystyried bod angen caniatâd ar wahân ar gyfer draenio, yn dilyn caniatâd cynllunio, amcangyfrifir i'r cyfuniad o oedi oherwydd y cais cynllunio a'r oedi cyn cael caniatâd ar wahân arwain at 12 mis o oedi i'r prosiect.

Felly gallai cytuno ar rai manylion pellach ynglŷn â draenio yn gynharach yn y broses fod wedi arwain at adeiladu yn gynharach. Nodir bod llawer o fusnesau naill ai'n methu â rhoi manylion ar ddraenio ar gam cynnar neu nad ydynt eisiau buddsoddi mewn gwneud hynny hyd nes i ganiatâd cynllunio gael ei roi. Ond gall dealltwriaeth lawn o bob caniatâd sy'n ofynnol ar gam cynnar helpu busnesau i wneud penderfyniadau ynghylch pryd i ymgymryd â gwaith i gael pa ganiatâd, a gall ymgynghori'n gynnar helpu i wneud hyn.

Mae'r astudiaeth achos hefyd yn pwysleisio argymhellion i gynorthwyo busnesau bwyd yn fwy cyffredinol.

Cyngor: Sicrhewch fod gan asiantaethau staff digonol i gynorthwyo busnesau bwyd drwy brosesau caniatâd.

Profiad cyffredinol Charcutier oedd bod rhanddeiliaid ac asiantaethau allweddol yn gefnogol i'w datblygiad. Ond teimlwyd bod Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd ill dau yn eithriadol o brin o staff ac arian ac mewn rhai achosion roedd maint eu gwybodaeth yn rhy eang i ddarparu cyngor i fusnesau bwyd penodol. Teimlwyd bod angen darparu cyngor mwy arbenigol i ddiwydiannau y mae eu sefyllfaoedd yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar eu cynnyrch.

Yn yr un modd, cafwyd achosion pan deimlai Charcutier fod Rheoli Adeiladu yn trin eu safle fel petai ei angen at ddefnydd preswyl yn hytrach na chynhyrchu bwyd arbenigol. Unwaith eto, felly, byddai'n ddefnyddiol sicrhau bod gan staff sy'n ymdrin â cheisiadau Rheoliadau Adeiladu ddealltwriaeth lawn o anghenion busnesau bwyd a rheoliadau ar gyfer safleoedd Gradd Bwyd. Gallai canllaw fod yn ddefnyddiol i gynorthwyo â hyn.

¹ Mae pwerau dirprwyedig yn golygu bod cais cynllunio yn cael ei gymeradwyo gan Swyddog Cynllunio heb fod angen iddo gael ei drafod gan y Pwyllgor Cynllunio. Caiff penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio yn aml eu gwneud fel hyn pan fo'r ceisiadau'n fach a/neu'n gymharol annadleuol.

Cyngor: Sicrhewch fod cyflenwad digonol o safleoedd gradd bwyd ar gyfer busnesau newydd a rhagor o safleoedd yn gyffredinol yn Sir Gaerfyrddin.

Roedd Charcutier yn chwilio am safle bum mlynedd yn ôl, felly mae'n bosibl nad yw'r prinder a welodd y cwmni yn bodoli mwyach. Ond os yw'r problemau yn parhau, efallai bod angen i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol ac asiantaethau cynorthwyol ystyried sut i gynyddu'r cyflenwad o safleoedd gradd bwyd ar gyfer y lleoliadau / mathau hyn o fusnesau. Gallai hyn fod yn arbennig o wir yn achos busnesau newydd, gan y gallai busnesau nad ydynt wedi'i lleoli yn agos at ganolfannau bwyd presennol ei chael yn anodd dod o hyd i safle i gychwyn eu busnes.